



Caerdydd sy'n dda i bobl hŷn

Croeso

Mae Tîm Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn yn falch iawn o gyhoeddi bod y ddinas wedi cael ei derbyn yn ddiweddar fel aelod o Rwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Dinasoedd a Chymunedau sy'n ystyriol o oedran. Hoffem ddiolch i'r partneriaid a weithiodd gyda ni i gwblhau'r broses ymgeisio drwy rannu arferion sy'n dda i bobl hŷn, sydd wedi'u cynnwys yng nghynllun gweithredu 'Caerdydd: Gweithio Tuag at Ddinas sy'n Dda i Bobl Hŷn

Byddwn yn cysylltu â chi'n rheolaidd gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau a

phrosiectau, ac yn cadw golwg ar gynnydd gan ddefnyddio Fframwaith Gwerthuso Caerdydd sy'n dda i bobl hŷn a gyhoeddwyd i randdeiliaid dinas sy'n dda i bobl hŷn Caerdydd ym mis Ebrill.

Mae'r diweddariad hwn yn cynnwys detholiad o waith a mentrau cyffrous sy'n dda i bobl hŷn sydd wedi bod yn digwydd ledled y ddinas yn ddiweddar. Bydd y diweddariadau hyn yn cael eu rhannu gyda chi bob chwarter, a bydd adolygiad llawn, cynhwysfawr yn cael ei lunio'n flynyddol.

Cysylltwch â ni os hoffech sgwrsio â ni am unrhyw beth sy'n dda i bobl hŷn!

Mannau Agored ac Adeiladau Cyhoeddus

Capel i Bawb (Yr hen gapel yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd)

Mae'r hen gapel yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd yn Adeilad rhestredig Gradd II sydd wedi'i drawsnewid yn gyfleuster iechyd a llesiant bywiog i drigolion lleol. Dewiswyd enw newydd, Capel i Bawb, drwy broses ymgysylltu â'r cyhoedd.

Roedd hwn yn brosiect partneriaeth gyda chyllid o'r Gronfa Gofal Integredig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chyngor Caerdydd. Mae'r lleoliad arbennig hwn bellach yn gartref i lyfrgell iechyd a lles newydd, gwasanaethau'r Cyngor gan gynnwys benthyciadau llyfrau hunanwasanaeth, cyfrifiaduron mynediad agored, gweithgareddau wedi'u hwyluso dan arweiniad Swyddog Cyswllt Cymunedol, manau cyfarfod a Chaffi Aroma. Mae toiledau i'r cyhoedd bellach ar gael yn y manau cymunedol gan gynnwys toiled cwbl hygyrch a chyfleusterau newid babanod.

Bydd yn adnodd gwerthfawr lle gellir cyfeirio cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofawr a'r gymuned leol at wybodaeth a chyngor, gweithgareddau cymdeithasol, dysgu a hamdden perthnasol a hygyrch.

Agorodd Eluned Morgan, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yr adeilad yn swyddogol ar 17 Mawrth ac mae trigolion lleol eisoes yn ei fwyhau.



Tai

Cynlluniau tai i gefnogi pobl hŷn sy'n byw'n Annibynnol



Mae gan dîm Datblygu Cyngor Caerdydd raglen o gynllunio a darparu cartrefi i bobl hŷn. Mae'r tîm wedi llwyddo'n ddiweddar i sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer dros 300 o gartrefi newydd i bobl hŷn, gan gynnwys cynlluniau yn Llaneirwg, Llanedern, Treganna a Butetown. Mae'r cynlluniau'n cynnwys cymysgedd o eiddo un ystafell wely a dwy ystafell wely ac maent yn cynnwys gwasanaethau i gefnogi byw'n annibynnol.

Yn y llun gwelir Cynllun Pobl Hŷn Addison House yn Nhrredelerch (41 o fflatiau) - i'w gwblhau ym mis Mawrth 2023!

Trafnidiaeth

Croesfannau Cyfri i lawr

Gosodwyd croesfan cyfri i lawr gyntaf Caerdydd i gerddwyr ar Stryd Wood yn y ddinas fel rhan o Gynllun Trafnidiaeth y Sgwâr Canolog. Mae amseryddion cyfrif i lawr yn gweithio drwy gyfrif am i lawr yr amser o ddiwedd y dyn gwyrdd i ddechrau'r dyn coch. Y gobaith yw y bydd y dull cyfrif i lawr yn helpu pobl o bob oed a gallu i benderfynu a allant gwblhau croesi'r ffordd yn ddiogel o fewn yr amser sy'n weddill ar y cloc.



Cymorth Cymunedol a Gwasanaethau Iechyd

Darllenwch Amdanaf I

Mae 'Darllenwch Amdanaf I' yn becyn cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gynlluniwyd i wella parhad gofal i bobl â dementia neu nam gwybyddol, a grëwyd gan Hyrwyddwyr Dementia ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'n hawdd i ofalwyr ei gwblhau ac i staff ei ddefnyddio, ac mae'n caniatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ddeall eu cleifion a darparu gofal o safon well.



Mae datblygiad diweddar gwych i gefnogi pobl hŷn a'u teuluoedd i ddefnyddio'r offeryn 'Darllenwch Amdanaf I' yn gytundeb y gellir ei argraffu am ddim yn unrhyw Hyb yng Nghaerdydd neu Lyfrgell ym Mro Morgannwg. Mae staff Hybiau a Llyfrgelloedd wrth law ledled y rhanbarth i helpu pobl i gael copi caled o'r pecyn cymorth. Mae hyn yn cynnwys Llyfrgelloedd Cymunedol y Fro.

Mae rhagor o wybodaeth ac adnoddau ar gael yma: <https://bipcaf.gig.cymru/our-services/dementia/hyfforddiant-a-datblygiad-dementia/darllenwch-amdanaf-i/>.

Os ydych chi'n rhan o sefydliad a hoffai gymryd rhan yn y gwaith o hyrwyddo 'Darllenwch Amdanaf I' cysylltwch â ni yn oed-gyfeillgar@caerdydd.gov.uk

Cyfathrebu a Gwybodaeth

Ymgynghoriad Gwefan Caerdydd Sy'n Dda i Bobl Hŷn

Mae gwefan newydd Caerdydd Sy'n Dda i Bobl Hŷn wedi'i chreu ac ar hyn o bryd mae'n cynnwys gwybodaeth ragarweiniol i ymwelwyr. Mae cynlluniau ar waith i ddatblygu'r wefan ymhellach ar ôl ymgynghori â phobl hŷn a rhanddeiliaid, er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu anghenion y ddwy gynulleidfa allweddol yma.

Datblygwyd arolygon ymgynghori a chânt eu dosbarthu'n fuan. Rhoddir ystyriaeth ofalus unwaith y derbynir adborth i sicrhau y bydd dyluniad a chynnwys y wefan yn adlewyrchu gofynion ei chynulleidfa wrth i Gaerdydd weithio tuag at wella bywydau pobl hŷn. Gwnewch yn siŵr eich bod i gyd yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac yn anfon ymlaen at unrhyw bartïon sydd â diddordeb!

Cyfranogiad Dinesig a Chyflogaeth

Ail-lansio Fforwm 50+

Mae'r Fforwm 50+ yn cynnwys dinasyddion Caerdydd 50 oed a throsodd, sy'n rhoi cymorth gwerthfawr i'r cyngor pan fydd datblygiadau newydd yn cael eu hystyried drwy fynychu a rhannu eu barn mewn digwyddiadau ymgynghori.

Mae ail-lansio'r fforwm yn cael ei gynllunio i annog aelodaeth newydd ac ehangu'r croestoriad o 50+ o gynrychiolwyr ar draws y ddinas. Mae brandio newydd wrthi'n cael ei ddatblygu i gyflwyno delwedd newydd, a bydd ymgyrch recriwtio yn cael ei chynnal i hyrwyddo'r fforwm drwy amrywiaeth o lwyfannau digidol a heb fod yn ddigidol i gyrraedd cymaint o bobl hŷn â phosibl. Bydd hyn yn cynnwys hysbysebu ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol, sgriniau meddygon teulu, posteri yn Hybiau Caerdydd a defnyddio sianeli cyfathrebu mewnol y cyngor a phartneriaid.

Mae cyfleoedd i ehangu'r ystod o ddigwyddiadau ymgynghori ar gyfer y Fforwm 50+ i gymryd rhan ynddynt yn cael eu nodi - mae hyn yn cynnwys sesiwn cynllunio toiledau cymunedol a gynhelir cyn bo hir.

Gobeithiwn y bydd ehangu a pharhau'r grŵp pwysig hwn yn sbardun allweddol i ddatblygiadau newydd sy'n dda i bobl hŷn ledled Caerdydd.

Cyfranogiad Cymdeithasol

Pedal Power

Mae Pedal Power yn elusen feicio gynhwysol yng Nghaerdydd sydd wedi ymrwmo i ddileu'r rhwystrau i gael mynediad at y manteision cadarnhaol y gall beicio eu cynnig i bobl hŷn a phobl anabl. Maent wedi ymrwmo i wneud beicio'n hygyrch ac yn gynhwysol drwy'r amrywiaeth o feiciau sydd ar gael ganddynt e.e. treiciau ar gyfer cadeiriau olwyn, treiciau hygyrch a beiciau llaw.



Ym mis Chwefror, cafodd defnyddwyr gwasanaeth o Ganolfan Ddydd y Tyllgoed amser gwych yn mwynhau'r offer sy'n dda i bobl hŷn sydd gan Pedal Power i'w gynnig. ASESWYD y defnyddwyr gwasanaeth gan y tîm Pedal Power i nodi beiciau addas a rhoddwyd arweiniad i staff y ganolfan ddydd. Cychwynon nhw ar gylchdaith bleserus o amgylch Caeau Pontcanna/Llandaf, gan aros am egwyl wrth y gored a hel atgofion ar hyd y ffordd.

Mae'r effaith gadarnhaol ar y bobl hŷn wedi creu cymaint o argraff ar dîm y ganolfan ddydd, ac maent wedi ymrwmo i berthynas barhaus â Pedal Power wrth symud ymlaen.

"Fe wnes i fwynhau fy hun yn llwyr. Cefais amser allan hyfryd" (defnyddiwr gwasanaeth)

Parch a Chynhwysiant Cymdeithasol

Ymweliad Pen Pal â'r Cartref Gofal

Lansiwyd Cynllun Pen Pal sy'n pontio'r cenedlaethau ym mis Mai 2021. Daeth y cynllun â phreswylwyr tri chartref gofal a dwy ysgol yng Nghaerdydd at ei gilydd, ac mae'r pen-pals wedi mwynhau ysgrifennu at ei gilydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Ar 26 Ebrill, yn ystod Wythnos Pontio'r Cenedlaethau Byd-eang - cynhaliwyd y cyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf rhwng pen pals Canolfan Ofal Forge ac Ysgol Gynradd Millbank y tu allan yn yr ardd ar ddiwrnod heulog iawn yn The Forge. Mwynhaodd y ddwy genhedlaeth yr heulwen, wrth chwarae gemau gyda'i gilydd yng ngardd y ganolfan gan gynnwys tiddlywinks, Connect 4, Amazing Robot, golff cadair freichiau a nadroedd ac ysgolion.



"Mae'r plant a'r preswylwyr wedi mwynhau treulio amser yng nghwmni ei gilydd yr wythnos hon, gan ddod i adnabod ei gilydd yn bersonol ar ôl ysgrifennu at ei gilydd yn ystod y pandemig. Cafwyd adborth hynod gadarnhaol gan y cartref gofal a'r ysgol.

"Cawsom brynhawn anhygoel ddoe, cymaint o hwyl a chymaint o wenu; roedd yn cynhesu'r galon... diolch mawr, MAWR i'r holl blant a ymwelodd, yn ymddwyn mor hyfryd ac yn barchus." (staff cartref gofal)

Newyddion Arall

Toiledau - Datganiad Cynnydd Dros Dro

Ym mis Chwefror, cyhoeddodd Cyngor Caerdydd ddatganiad cynnydd dros dro yn ymwneud â'r strategaeth toiledau lleol, cyfarwydded gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cynnydd y mae Caerdydd wedi'i wneud o ran helpu i sicrhau bod pobl yn y ddinas yn gallu cael gafael ar y ddarpariaeth toiledau sydd ei hangen arnynt.

Mae'r datblygiadau allweddol yn cynnwys arwyddion hygyrch newydd, cynnydd yn y ddarpariaeth toiledau, dyluniad arwyddion newydd a datblygu'r cynllun toiledau cymunedol ymhellach. Mae gwaith ar y gweill i gynyddu ymwybyddiaeth o argaeledd toiledau cyhoeddus ledled y ddinas, gan gynnwys creu cerdyn Z sy'n rhoi manylion y cyfleusterau yn Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd, a map ar wefan Croeso Caerdydd.

Cyngor Caerdydd
Strategaeth Toiledau Lleol
Datganiad Cynnydd Dros Dro
Chwefror 2022

